

COFRESTRYADAU A CHOFRESTRYADAU HWYR AR GYFER TGAU A SAFON UWCH YNG NGHYMURU: BLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017¹ a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmipas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007². Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol³ ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

Diben

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno data ar gofrestradau a chofrestradau hwyr ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Sefydliad aelodaeth yw'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ) sy'n cynnwys saith darparwr cymwysterau yn y DU, gan gynnwys y rhai sy'n dyfarnu TGAU a Safon Uwch. Mae JCQ yn cyhoeddi dyddiadau cau cofrestru ar ran y byrddau arholi. Os bydd cofrestriad yn dod i law ar ôl y dyddiad cau, ystyrir ei fod yn hwyr a gellir codi tâl ychwanegol mewn perthynas ag ef.

Disgrifiad

Ysgolion a cholegau sy'n gyfrifol am gofrestru eu myfyrwyr TGAU a Safon Uwch gyda byrddau arholi. Caiff myfyrwyr eu cofrestru ar wahân ar gyfer pob uned neu gydran sy'n gwneud cymhwyster. Felly, caiff cofrestriad ei gyfrif fel myfyriwr yn cael ei gyflwyno am asemiad unigol, tra bod tystysgrifau yn cyfeirio at y cymhwyster cyffredinol. Ar gyfer TGAU a Safon Uwch llinol, gwneir cofrestradau ar lefel cymhwyster. Bydd ysgol neu

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents>

² http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/pdfs/wsi_20171142_mi.pdf

³ <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/>

goleg yn cyflwyno cofrestriadau i'r bwrdd arholi perthnasol ar ran y myfyrwyr. Casglwn ddata dros dro oddi wrth fyrddau arholi pan fydd yn rhesymol gyflawn, er y gall y niferoedd terfynol sydd wedi cofrestru fod ychydig yn wahanol i'r rhain. Mae TGAU a Safon Uwch wedi bod yn destun newid mawr yng Nghymru. Dechreuwyd cyflwyno cymwysterau UG diwygiedig yn 2015, a gwnaed hynny ar gyfer Safon Uwch yn 2016. Dechreuwyd cyflwyno TGAU diwygiedig yn 2015, gyda'r canlyniadau cyntaf yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd, Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn 2017. Cafodd TGAU diwygiedig mewn pynciau eraill eu dyfarnu dros y ddwy flynedd ganlynol.

Ffynhonnell Data

Mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data i ni ar gyfer y TGAU, UG a Safon Uwch maent wedi'u dyfarnu yng Nghymru, yn ogystal â chofrestriadau a chofrestriadau hwyr. Mae cyrff dyfarnu yn anfon data i ni ar gyfer pob cyfres arholiadau. Cysylltir ag unrhyw ddarparwr nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu er mwyn gwneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl. Ar gyfer y datganiad hwn, cawsom ddata gan yr holl gyrff dyfarnu.

Cafodd data eu casglu ar gyfer UG a Safon Uwch ar wahân am y tro cyntaf yn 2016. Felly, yn y cyhoeddiad hwn, cyflwynir data cyn 2016 ar y cyd ar gyfer UG a Safon Uwch. O 2016 ymlaen, lle mae data ar gael, caiff niferoedd UG a Safon Uwch eu cyflwyno ar wahân yn y tablau.

Cyfyngiadau'r data

Mae camgymeriadau posibl yn y wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;

- Bod yn wiliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Casglwyd data ar bwynt priodol pan oedd yn rhesymol gyflawn. 4 Ionawr 2019 oedd y pwynt yma ar gyfer cyfres arholiadau Tachwedd 2018, 27 Chwefror 2019 ar gyfer cyfres arholiadau Ionawr 2019 a 4 Hydref 2019 ar gyfer cyfres arholiadau Mehefin 2019.

Cymariaethau

O fis Tachwedd 2017, cyflwynodd cyrff dyfarnu ddata i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

Y diffiniad o gofrestrriad hwyr at ddibenion ystadegol yw cofrestrriad a ddaeth i law ar ôl hanner nos ar y dyddiad cau ar gyfer pob cyfres arholiadau. Nid oedd y data a gyflwynwyd yn flaenorol gan CBAC yn defnyddio'r diffiniad hwn. Mae'r data yn y datganiad hwn yn defnyddio data CBAC sydd wedi'u cywiro yn defnyddio'r diffiniad hwn. Nid yw'r diffiniad o gofrestrriadau hwyr a ddefnyddir at ddibenion ystadegol yn golygu bod yn rhaid i ganolfannau dalu ffi i'r corff dyfarnu am bob un o'r cofrestrriadau hwyr hyn. Mae gan gyrff dyfarnu ddyddiadau gwahanol y codir ffi hwyr ar eu hôl ac, felly, nid yw'r ystadegau ar gyfer cofrestrriadau hwyr o reidrwydd yn cynrychioli nifer y cofrestrriadau y codwyd ffi hwyr mewn perthynas â nhw.

Cwmpas Daeryddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestrriadau, cofrestrriadau hwyr a thystysgrifau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y cofrestrriadau fel arfer yn cael eu hadolygu, er y gall datganiadau dilynol gael eu hadolygu i gynnwys data hwyr neu gywiro camgymeriad. Ar gyfer y datganiad hwn nodwyd sawl gwall. Mae'r gwallau hyn wedi'u cywiro a defnyddir y symbol (r) i'w nodi yn y tablau.

Cyflawnrwydd y data

Rydym yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau eu talgrynnu. Yn y sylwadau a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir * yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Datganiad ystadegol cofrestriadau mis Tachwedd, a chofrestriadau'r haf ar gyfer Cymru⁴ a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.
- Datganiad ystadegol cofrestriadau a chofrestriadau hwyr a gyhoeddwyd gan Ofqual⁵.
- Y datganiad 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru⁶.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru⁷.

⁴ <https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cyhoeddiadau-ymchwil-ac-ystadegau/?page=1&perpage=10&categories=&sortBy=byDate&fromDate=&toDate=&query=&publicationTypes=4208>

⁵ <https://www.gov.uk/government/statistics?departments%5B%5D=ofqual>

⁶ <https://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?lang=cy>

⁷ <https://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy>

Mae'r gofrestr QiW⁸ yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Tachwedd 2020 (dros dro).

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy e-bost i statistics@qualificationswales.org.

(h) (2019) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.

⁸ <https://www.qiw.wales/?lang=cy>